

P-05-1155 Caniatáu chwaraeon dŵr diogel, gan gadw pellter cymdeithasol, yn ystod cyfnodau clo y coronafeirws

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Tavi Murray, ar ôl casglu cyfanswm o 1,447 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae gweithgareddau ac ymarfer corff yn yr awyr agored yn hynod fuddiol i iechyd meddwl ac iechyd corfforol pobl. Gofod glas: mae camlesi, afonydd, llynnoedd a'r arfordir yn ffynonellau llesiant gwerthfawr a diogel, a wrthodir i ni yng Nghymru ar hyn o bryd. O ganlyniad i hyn mae llawer ohonom yn dioddef o heriau iechyd meddwl gwirioneddol.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddileu'r ymadrodd sy'n awgrymu bod pob math o chwaraeon dŵr yn cael ei wahardd yn ystod cyfnodau clo a chaniatáu mynediad at ofod glas lleol ar yr amod bod cyfyngiadau teithio yn cael eu dilyn.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Rydym i gyd yn cytuno y dylem "osgoi gweithgareddau sy'n golygu cryn dipyn o risg" yn ystod cyfnodau clo beth bynnag fo'r amgylchedd lle mae'r rhain yn cael eu cynnal, er mwyn gwarchod y gwasanaethau brys. Fodd bynnag, gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddileu'r ymadrodd sy'n awgrymu bod pob math o chwaraeon dŵr yn y categori hwn. Gall gweithgareddau dŵr fel caiacio, canŵio, syrffio, chwaraeon padlo a nofio yn yr awyr agored ddarparu ymarfer corff rhagorol a diogel ynghyd â buddion iechyd meddwl enfawr.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i aralleirio'r Cwestiynau Cyffredin hyn i ddarllen yn syml: "Gan mai un o ddibenion y cyfyngiadau yw lleihau'r pwysau ar y GIG yng Nghymru, dylech osgoi gweithgareddau sy'n golygu cryn dipyn o risg."

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gŵyr

- Gorllewin De Cymru